# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2018

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton – Cadeirydd.
Y Cynghorydd Nia Jeffreys – Is-gadeirydd.

**Y Cynghorwyr:** Freya Bentham, Steve Collings, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Paul Rowlinson, Cemlyn Williams a Gareth Williams.

**Aelodau Cyfetholedig**: Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni/ Llywodraethwyr Meirionnydd) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Sian Lloyd Roberts (Uwch Swyddog Gweithredol)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
Y Cynghorydd Craig ag Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol)
Nia Morris (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid)

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 7 and 8 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie Anne Jones (Swyddog Addysg Ardal Ysgolion)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Selwyn Griffiths, Huw Wyn Jones a Keith Jones; Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a David Healey (Undebau Athrawon).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Nododd y Cadeirydd iddi dderbyn cais gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd i godi mater brys yn ymwneud â thrafnidiaeth. Mynegodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ei bryder ei bod yn ymddangos bod plant yn y sir wedi'u cludo ar fysiau heb unrhyw fath o yswiriant. Eglurodd y Cadeirydd, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, na allai ganiatáu trafod y mater yn y cyfarfod hwn. Gan hynny, byddai'n codi'r mater yn y sesiwn anffurfiol gyda'r aelodau yn dilyn y pwyllgor hwn er mwyn gweld a oes mater i'w graffu.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2017, fel rhai cywir.

## 5. CAIS CYNLLUN TWF AR GYFER GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad Arweinydd y Cyngor yn nodi'r cynnydd gyda datblygu Cais y Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru ynghyd ag adnabod rhai materion sydd angen ystyriaeth.

Ymhelaethodd yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod anogaeth i'r holl aelodau fynd i'r gweithdy Cynllun Twf ar y 15fed o Chwefror er mwyn deall y maes a deall beth yw'r prosiectau, gan hefyd ystyried yr angen am fwy o sesiynau yn dilyn hynny.
- Bod cefnogaeth yn gyffredinol i'r uchelgais o sicrhau twf economaidd ar draws Gogledd Cymru, ond bod her sylweddol i sicrhau hynny hefyd.
- Bod neges glir bod cefnogaeth i'r Cynllun Twf ar gyfer y Canolbarth hefyd, yn arbennig o safbwynt ardal Meirionnydd, a bod angen sicrhau mewnbwn cryf a chydweithio gyda'r prosiect hwnnw, a chydweithio gyda Cheredigion a Phowys hefyd ar yr un amser, gan hefyd gofio pwysigrwydd sicrhau prosiectau ar draws Gwynedd.
- Bod angen sicrhau statws i'r iaith Gymraeg yn y gwaith yma a defnyddio Bwrdd Twf Gogledd Cymru fel cerbyd i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Bod neges glir i ddysgu o wersi'r gorffennol a sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau, ac wrth herio cynlluniau, bod angen herio trylwyr ar y cynlluniau hynny.
- Bod angen datblygu'r elfen herio a chraffu o safbwynt Gwynedd er sicrhau dealltwriaeth glir o'r trefniadau gan ystyried sut mae aelodau yn mynd i gael mewnbwn yn gyffredinol i'r prosiectau sydd ar y gweill a'u siapio'n amserol.
- Y dylid sicrhau adborth rheolaidd i'r pwyllgor hwn.

## 6. AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn amlinellu'r camau sydd wedi'u cymryd i adnabod yr opsiwn a ffafrir ar gyfer Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor craffu ar y cynllun er mwyn eu cyflwyno i'r Cabinet ar y 13eg o Fawrth, 2018.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Rhoddwyd cryn sylw yn ystod y drafodaeth i'r ffaith bod y 4 opsiwn a amlinellwyd yn yr adroddiad yn golygu torri / lleihau'r grant blynyddol a roddir i'r Urdd, Ffermwyr Ifanc, Y Geidiaid a'r Sgowtiaid, a chefnogi'r mudiadau hynny mewn ffordd wahanol.

Cynigiwyd ac eiliwyd argymhelliad i beidio torri grant y mudiadau gwirfoddol ar y sail eu bod yn gwneud gwaith ardderchog yn ein cymunedau.

Mewn ymateb, eglurwyd wrth yr aelodau:-

- Y byddai argymhelliad o'r fath yn arwain at lawer llai ar gyfer pobl ifanc Gwynedd gan y byddai'n golygu gofyn i'r Cabinet lunio opsiwn gwahanol i'r 4 opsiwn a ystyriwyd eisoes, fyddai'n cadw'r elfen o £76,000 ar gyfer y mudiadau gwirfoddol, ond yn lleihau'r gyllideb ar gyfer gweddill y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Nad oedd nifer o fudiadau gwirfoddol eraill yn y sir, megis clybiau rygbi, yn derbyn unrhyw grant o gwbl gan y Cyngor.

Pleidleisiwyd ar y cynnig. Pleidleisiodd 6 aelod o blaid a 6 aelod yn erbyn. Ni chymerwyd pleidlais fwrw. Gan nad oedd mwyafrif o blaid, nid oedd gan y pwyllgor argymhelliad i'w gyflwyno i'r Aelod Cabinet.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-
- Bod cydnabyddiaeth bod y sefyllfa yn un anodd iawn i bawb, gan fod y gyllideb wedi'i thorri eisoes a neb yn hoffi newid. Fodd bynnag, nid yw aros yr un fath yn opsiwn.
- Bod y gwaith craffu wedi dangos bod yna wahaniaeth barn ymhlith aelodau'r pwyllgor o ran a yw'r opsiwn a ffafrir ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn deg i holl ieuenctid Gwynedd, yn cynnig gwerth am arian, ac yn gynaliadwy i'r dyfodol, a hynny oherwydd y pryder am effaith y toriad yn y gyllideb ar bobl ifanc.
- Bod nifer yr ymatebion i'r holiadur yn galonogol iawn ac yn dangos bod yna lawer o ddiddordeb yn y maes.
- Bod y pwyllgor yn gefnogol i'r syniad o edrych ar sefydlu clybiau yn y gymuned a chynorthwyo'r clybiau hynny i sefydlu eu hunain. Hefyd, bod neges gryf gan y pwyllgor i'r Adran gysylltu â'r cynghorau cymuned i weld sut y gellir eu cynorthwyo i gynnal gweithgareddau a phrosiectau ar ran y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Bod pryder ynglŷn â'r effaith ar y bobl ifanc hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, yn benodol o safbwynt cael mynediad at y gwasanaeth, a phryder hefyd ynglŷn â'r effaith ar yr iaith.

**7. DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn gwahodd sylwadau neu gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor craffu ar friff drafft ar gyfer comisiynu ymgymerwr i gynnal asesiad annibynnol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

'Roedd prif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-
- Y dylai'r gwaith o asesu cyfrwng iaith y cyrsiau fynd at wraidd y sefyllfa, yn hytrach na dibynnu ar y ffigurau y bydd y sefydliadau yn eu darparu.
- Bod disgwyl i'r asesiad gymryd i ystyriaeth bod gwaelodlin perfformiad lefel A yn wahanol i waelodlin perfformiad TGAU.
- Bod angen i'r asesiad edrych ar y dystiolaeth bod pobl ifanc yn dewis pynciau sydd ddim yn golygu teithio rhwng safleoedd yn ystod y dydd er hwylustod iddynt.
- Cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil i'r pwyllgor hwn ym mis Medi (yn ddibynnol ar gyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen wreiddiol a osodwyd) er mwyn deall y sefyllfa bresennol cyn adnabod y ffordd ymlaen.

**8. YMCHWILIAD CRAFFU POSIB' I'R MAES EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU NEWYDD AR GYFER YSGOLION AR ANSAWDD ADDYSG**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd yn gofyn i'r pwyllgor fabwysiadu'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg" ac adnabod 5 aelod i fod yn rhan o'r ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cefnogi'r egwyddor o gynnal ymchwiliad i'r maes "effaith datblygiadau adeiladau newydd ar gyfer ysgolion ar ansawdd addysg".**

**(b) Adnabod y Cynghorwyr Steve Collings, Cai Larsen a Paul Rowlinson i fod yn rhan o'r ymchwiliad a chysylltu â holl aelodau'r pwyllgor i weld pwy arall fyddai â diddordeb.**

## 9. BLAENRAGLEN CRAFFU 2017/18

Cyflwynwyd – y blaenraglen craffu, fel mae'n sefyll ar hyn o bryd.

Derbyniwyd y blaenraglen gyda'r diweddariadau a nodir mewn print trwm isod:-

| | |
|---|---|
| 17 Ebrill 2018 | ▪ Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg **(neu Addysg Arbennig)**<br>▪ Adroddiad y Cyfnod Sylfaen<br>▪ **Canolfannau Byw'n Iach – craffu'r cytundeb** |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 1.20 y.h.

**CADEIRYDD**